**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020**

## Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i gefnogi'r gofynion gweinyddol cychwynnol mwy llac a oedd yn gymwys i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 o fis Ebrill 2020. Mae'r CRIA hwn ar gael i'r cyhoedd drwy restr CRIA ganolog Llywodraeth Cymru. Ar adeg llunio'r CRIA nid oedd yn fandadol cyhoeddi pob CRIA. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyhoeddi'r CRIA hwn a bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn yr ychydig wythnosau nesaf.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Asesiad Effaith Integredig llawn wrth ddatblygu Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 a oedd yn cynnwys CRIA. Cadarnhaodd y broses hon fod yr asesiad a amlinellir yn y CRIA a grybwyllir uchod yn parhau i fod yn berthnasol. Unwaith eto, mae'r adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Integredig wrthi'n cael eu cyhoeddi.

## Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Fel y'i datgenir yn y Memorandwm Esboniadol, cynhaliwyd ymgynghoriad 4 wythnos rhwng 27 Gorffennaf a 24 Awst 2020. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn sail i gynnwys Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 o ran y ffaith bod y newid arfaethedig i Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, i gynnwys mynediad at broses feddygol hunanddatgan yn ystod y pandemig, wedi ei ddileu yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid yn ystod y broses ymgynghori.

Fel y'i hamlinellir yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd.

## Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried nad yw'r diwygiad sy'n estyn y cyfnod y caiff asiantaeth wneud cymeradwyaeth dros dro i berson cysylltiedig / gofalwr sy'n berthynas o 16 o wythnosau i 24 o wythnosau yn darparu unrhyw risg ychwanegol i blentyn. Mae hyn oherwydd y bydd angen o hyd i'r awdurdod lleoli lynu wrth ofynion Rheoliadau 2015 a sicrhau trefniadau a fydd yn diogelu ac yn hybu llesiant plentyn ac yn diwallu'r anghenion fel y'u nodir yn y cynllun gofal a chymorth. Mae pob un o'r dyletswyddau sy'n weddill mewn cysylltiad â'r gymeradwyaeth dros dro honno yn parhau i fod ac fe'u nodir yn rheoliad 26(2).

I gefnogi'r Rheoliadau, cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig llawn ac mae wrthi'n cael ei gyhoeddi. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd.